

FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR GAERFYRDDIN

Y Meini Prawf ar gyfer Dewis Unigolion

Mae'r meini prawf ar gyfer asesu'r ceisiadau fel a ganlyn. Fodd bynnag, ni fydd yn rhaid i ymgeiswyr fodloni'r holl feini prawf er mwyn bod yn llwyddiannus.

Mae'n hanfodol i aelodau FfMLI:

- ymrwymo i waith y Fforwm:

Swyddogaeth y Fforwm yw rhoi cyngor i'r awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill ynghylch gwella mynediad cyhoeddus i dir yn yr ardal at ddibenion hamdden a mwynhad yn yr awyr agored.

- bod yn fodlon chwarae rhan lawn ac adeiladol ym mhob agwedd ar waith y Fforwm ac yn abl i wneud hynny - mae'n bosibl na fydd pobl sy'n gallu cynrychioli diddordeb penodol cul yn unig yn aelodau addas.

Mae'n ddymunol i aelodau FfMLI:

- meddu ar wybodaeth a phrofiad o faterion yn ymwneud â mynediad i gefn gwlad, yn benodol yn Sir Gaerfyrddin.
- meddu ar sgiliau da o ran cyfathrebu ac ymwneud â phobl eraill.
- meddu ar brofiad o ymdrin â materion strategol a pholisi a'u trafod.
- bod yn frwdfrydig dros wella mynediad yng nghefn gwlad.
- bod yn fodlon ymrwymo i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd chwarterol y Fforwm.

Nid yw aelodau o'r Fforwm yn cael eu talu ond gallant hawlio treuliau rhesymol.

Os hoffech wneud cais, cwblhewch y ffurflen gais a'i dychwelyd at:

Mr J Lawday neu Ms L Pugh
Adain Mynediad i Gefn Gwlad
Swyddfeydd Parc Coetir y Mynydd Mawr
Y Tymbl
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA14 6HU

E-bost: PROW@sirgar.gov.uk Rhif ffôn: 01554 742214 neu 01554 742215